
# Saul o Tarsus yn dianc

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther





Roedd pobl yn ofni Saul o Tarsus oherwydd ei fod yn arestio pobl oedd yn credu yn Iesu. Ond un diwrnod fe newidiwyd bywyd Saul pan siaradodd Duw ag ef wrth iddo deithio i Damascus.




Arferai Saul o Tarsus gosbi unrhyw un a gredai yn Iesu nes iddo ddod yn ddilynwr Iesu Grist ei hun a chael ei fedyddio. Arhosodd gyda Christnogion yn Damascus am ychydig ddyddiau.




Roedd o mor gyffrous pan ddeallodd pwy oedd Iesu ac roedd ar dân eisiau dweud wrth yr arweinwyr Iddewig mai Iesu Grist oedd Mab Duw, y Meseia a addawyd. Roedd pawb wedi eu syfrdanu fod Paul nawr yn Gristion.



Daeth llawer i gredu a dod yn Gristnogion hefyd ond roedd rhai o'r Iddewon eisiau cael gwared ar Saul. Wnaethon nhw gadw gwyliadwriaeth wrth giât y ddinas ddydd a nos yn aros am gyfle i ddal Saul a'i ladd.



Rhybuddiodd Duw Saul i beidio â gadael y ddinas drwy fynd drwy'r giatiau, felly arhosodd nes iddi dywyllu ac aeth ei ffrindiau ag ef i ffenestr yn wal y ddinas.



Fe roeson nhw Saul mewn basged ac yn ddistaw fe wnaethon nhw ei ollwng yn ofalus â rhaff i'r gwaelod. Glaniodd yn ddiogel y tu allan i'r ddinas ac fe wnaethon nhw dynnu'r fasged wag yn ôl i fyny'n gyflym.



Cerddodd Saul ar hyd y ffordd i Jerwsalem gan ddiolch i Dduw am ei gadw'n ddiogel. Gwyddai y byddai rhai pobl yn ei ddrwgdybio a pharhau i'w ofni am ei fod wedi arestio cymaint o Gristnogion.



Dechreuodd Paul ddweud wrth bawb am Iesu ac fe wnaeth Barnabas ei groesawu fel brawd. Fe ddaeth Saul yn apostol ac yn athro beiblaidd a ysgrifennodd rannau o'r Beibl.